

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015

Amser:
09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Michael Kay

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

Agenda

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

2 Papurau i'w nodi (09:00–09:05) (Tudalennau 1 – 3)

Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb: Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (25 Chwefror 2015) (Tudalennau 4 – 11)

Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru: Letter from the Permanent Secretary, Welsh Government (4 Mawrth 2015) (Tudalennau 12 – 13)

Gohebiaeth – Y Pwyllgor: Llythyr gan Paul Martin MSP, Gynullydd, Y Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus , Senedd yr Alban (4 Mawrth 2015) (Tudalen 14)

3 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2014:

Sesiwn dystiolaeth 1 (09:00–10:00) (Tudalennau 15 – 58)

Syr Derek Jones – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Gawain Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol, Llywodraeth Cymru

Peter Ryland, Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (10:00)

Eitemau 5 a 6 o'r cyfarfod heddiw ac Eitemau 1 a 2 ar gyfer y cyfarfod ddydd Mawrth 17 Mawrth.

5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Ystyried yr Adroddiad Drafft (10:00–10:30) (Tudalennau 59 – 78)

6 Amseroedd Aros y GIG: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru (10:30–11:00) (Tudalennau 79 – 87)

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2015**

Amser: **09.00 – 11.01**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/2607>

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Darren Millar AC (Cadeirydd)
Jocelyn Davies AC
William Graham AC
Mike Hedges AC
Sandy Mewies AC
Julie Morgan AC
Jenny Rathbone AC
Aled Roberts AC

Tystion:

**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru,
Swyddfa Archwilio Cymru**
Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru
Simon Higgins, Road Haulage Association Ltd
Malcolm Bingham, Freight Transport Association

Staff y Pwyllgor:

Leanne Hatcher (Ail Clerc)
Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)
Andrew Minnis (Ymchwilydd)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Tudalen y pecyn 1

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gadarnhau nifer y staff sydd wedi eu recriwtio, i ystyried achosion ôl-weithredol ac i reoli llwyth achosion parhaus.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

4.1 Darparodd Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr Aelodau gyda diweddariad ar yr ymgynghoriad a'r dull ymholi amlinellol.

5 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Road Haulage Association Ltd a Freight Transport Association ar ei ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd.

6 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Trafod y dystiolaeth:

6.2 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor:

- i ofyn am ffigyrau ar lefelau staffio a gwybodaeth yn ymwneud â rheoli traffig a threfniadau gwydnwch gan Asiantau Cefnffyrdd;
- gofyn am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar gynlluniau cefnffyrdd mawr sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ei ddull o flaenoriaethu cynlluniau yn y dyfodol, a mwy o fanylion am wariant Asiantau Cefnffyrdd, rhaglenni gwaith a chyllidebau yn y dyfodol;
- ysgrifennu at Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) i ofyn am wybodaeth am reoli digwyddiadau a defnyddio sgriniau; ac

- ysgrifennu at Highways England i ofyn am wybodaeth am ei ddull o gynnal a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn Lloegr, gan gynnwys manteision disgwylidig y strwythur a'r dull gweithredu newydd, a sut y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd cyllid.

6.4 Cytunodd y Gwasanaeth Ymchwil i ddarparu eglurhad ar goridorau'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yng Nghymru a'r DU a gwybodaeth am Highways England.

7 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth yr Athro June Andrews a Mark Butler, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu i fynegi awydd y Pwyllgor iddi ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Eitem 2.1

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

Ref: SF/HL/0263/15

25 February 2015

Dear Darren,

As the Committee requested here is an update on the actions that have been undertaken since my responses in June and August 2014 to your report on Covering Teachers' Absence. The following responses take into account only those recommendations where we stated further activity would be undertaken.

Recommendation 1 and 13

As previously advised the Welsh Government collect and publish data on teacher absence annually. The responsibility for monitoring and evaluating the reasons for absence rests with the schools and employers. We have approached local authorities to ascertain how they monitor teachers' absence, how frequently they report and how they utilise the data in the management of absences in school and these responses are being considered as part of the development of the guidance referred to in the response to recommendation 7 below.

WG officials are also working closely with local authority HR Directors and the WLGA in developing a people management framework for the delivery of some specialist HR functions. This will support the National Model for Regional Working and absence data will help inform consortia intelligence for school improvement plans and activities. This framework will be implemented from April 2015.

Recommendation 2

On June 10 2014 I announced a 'New Deal' which set out the vision for the professional learning of all school based practitioners in Wales. The New Deal is supported by the development of the National Professional Learning Model (NPLM) which provides practitioners with a clear, coherent model setting out the approaches to professional learning that have the most positive and sustained impact on teaching standards.

It is intended that this approach to professional learning will place less of a reliance on the traditional approach of one off training days, which are a significant cause of teacher

absence. Embedding professional learning activities within the school, whilst not eradicating absence, will provide a more flexible and effective approach.

The principles of the NPLM are based on evidence of effective approaches to professional development and we are continuing to draw on international evidence as we develop the model, as well as from schools in Wales who are already using these approaches.

I will shortly announce further details regarding the New Deal for the education workforce but the principle of this approach will be to ensure that what is announced will be available to the entire workforce including supply teachers.

Recommendation 5

In responding to your recommendation regarding the strengthening of HR support for head teachers and governors in dealing with absence issues, we are progressing work with relevant partners at local authority and consortia level to produce a people management framework for implementation by April 2015. This is being developed as an integral part of the National Model for Regional Working. Within this framework local authority HR services will offer head teachers and governing bodies assistance with their people management function and this will include supporting schools in addressing absence issues.

Recommendation 6

Further to my response in June a proposal to conduct a thematic review into cover arrangements and how the guidance (in recommendation 7) was being adopted has been considered by the bid evaluation panel (comprising of Welsh Government officials and Estyn). It was determined that the guidance would not be sufficiently implemented for a review to be undertaken in 2015/16. It was suggested that this proposal be resubmitted for consideration in 2016/17 as it was concluded that deferring this study by a year would provide opportunity for the new guidance on cover arrangements to be fully developed and embedded before the study takes place. It was further suggested that the study should have a focus and that it may specifically consider the effect of long term absence on primary schools.

Recommendation 7

Work has commenced on co-constructing guidance for effective management of workforce absence with local authority partners and the timetable for its development, consultation (informal) and publication is;

March 2015	Draft Guidance Document
March/April 2015	Key Stakeholder Consultation, e.g; School Practitioners Panel (23/3) Union Partners (April) HR Directors Network (21/4) ADEW (date tbc)
May 2015	Communication campaign re guidance e.g. DYSG
June 2015	Document published

The evaluation of the guidance will form part of Estyn's inspection of schools and how they use the guidance. We will also work with the WLGA and the HR Directors' network and the ADEW HR Officers network to monitor its effectiveness on an ongoing basis.

Recommendation 8

Further to my response in June a review has been carried out of training and professional learning instigated by the Welsh Government during the period January to July 2014. The report is attached at annex 1 and identifies both external and in house training. There does appear to be more focus on external events and as such it is important that in moving forward my officials consider a range of approaches when they want to engage with the education workforce and that the option and impact of bringing teachers and support staff out of schools is considered carefully. Therefore, we will produce a short guidance document on the best practice approaches that should be considered once details of the New Deal are announced.

Recommendation 9

With regards to your recommendation regarding CPD for supply teachers, we have been able to identify over 1,400 supply teachers who now as a result of our contact with them receive the DYSG newsletter. It includes a range of information regarding Welsh Government policies, training and development events and other relevant information for the education workforce and is distributed fortnightly.

We want to ensure that the Professional Learning Model which is being developed takes account of how supply teachers can access the model and benefit from CPD in the same way as all other teachers.

Regulations also came into force on the 27 October 2014 regarding the requirement for schools to produce School Development Plans (SDP). Schools are required to meet the regulations in full by September 2015 to allow time for transitional arrangements to be made. From this date all schools must set out in their SDP how they intend to develop their staff including those temporarily placed at the school.

Recommendation 10

The Committee recommended that CPD was a requirement in any future specification for the retendering of the Framework contract. The National Procurement Service has recently issued a new tender to the supply market. This has included a specific evaluation question on how the supplier will ensure training and CPD is provided to their temporary workforce. Supplier responses will be evaluated and scored accordingly. The tender process is currently underway.

Recommendation 11 and 12

Both of these recommendations concerned evaluating elements of the Masters programme. However, since my response to you in June I have made announcements regarding a refocus of the MEP and officials are currently working on proposals for a revised programme that will widen access to Masters-level professional learning for practitioners at different career points. In doing so, officials will be taking account of feedback and comments from partners and participants who have been involved in the current Masters programme. When developing the requirements for the revised scheme consideration will be given to establishing arrangements that support programme participants whilst delivering improved value for money.

The discontinuation of the existing MEP means that undertaking the form of evaluation originally envisaged in recommendation 11 of your report is therefore no longer appropriate.

Recommendation 14


New statutory guidance on arrangements for keeping children safe in education – *Keeping learners safe* - was published in January 2015. This guidance sets out the requirements for the local authority and the governing body of a school to operate safe recruitment procedures and makes sure that appropriate checks are carried out on new staff working with children.

The Welsh Government expects all local authorities and schools in Wales to comply with statutory arrangements, including those put in place through the Disclosure and Barring Service.

The Welsh Government will continue to support all education providers to ensure that they have effective systems in place to promote safe practice. Central monitoring arrangements covering individual aspects of the guidance would be prohibitive.

I would like to take this opportunity to thank the Committee for considering the issue of absence and cover in schools. If you require any further clarification then please let me know.

If we are to raise standards in education in Wales it is important that we manage our workforce effectively and ensure that our teaching and support staff are given the best opportunity to focus on teaching and learning.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw Lewis', written in a cursive style.

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Review of training and professional learning carried out by or on behalf of the Welsh Government during January and July 2014

1. Background

1.1 In recommendation 8, the Public Accounts Committee recommended that the Welsh Government evaluate its policies; such as the development of different forms of training and Continuing Professional Development that relied less on teachers being absent from the classroom and the demands of the regional consortia on schools, and considered the impact these have had on cover requirements.

1.2 In response the Welsh Government has undertaken a review of training and professional learning instigated by the Welsh Government using a sample of activities delivered between 1 January 2014 and July 2014.

1.3 The purpose of the review was to:

- a) identify the type and frequency of face to face training and professional learning activity, undertaken with teachers for that period and the impact on teacher absence.
- b) considered the strengths and weaknesses of approaches
- c) identify key factors and alternative approaches from policy colleagues that could be considered when developing programmes in the future.
- d) identify a range of approaches that could be used in the future.

2. Methodology

2.1 Policy officials were contacted across the Department for Education and Skills to ascertain if they had delivered or commissioned any type of training for teachers.

2.2 Semi structured interviews were undertaken with policy officials who had delivered or commissioned activities within the identified remit of the study.

3. Findings

3.1 The following face to face training and professional learning activity was undertaken with teachers.

The Digital Learning Branch held a series of 21 roadshow events in early 2014 for school and college leaders to introduce the changes being implemented to qualifications in Wales following the Review of Qualifications. 1,482 schools attended and 2,021 teachers were trained. All further training will be offered and delivered in smaller modular sessions of maximum 2.5 hours.

Regional workshops for NPQH (National Professional Qualification for Headship) candidates which were run by the Professional PCs/Consortia in each of the four regions on behalf of the Welsh Government. There were 4 events, one in each consortium with a total of 100 teachers attending.

The Leadership Branch held two full day workshops for participants in the Programme Evaluation Project. Individuals and schools or groups of schools were funded to undertake leadership programmes in exchange for them helping to evaluate the programmes in question.

One workshop was for the opening of the programme and one for the closing. Both events were held in Llandrindod Wells and 70 delegates attended.

The Digital Learning Division held non compulsory two day CPD training sessions for teachers to roll out Hwb and to set up their own learning platform. 1,482 schools attended and 2,021 teachers were trained.

A series of three events to roll out the second tranche of the Lead & Emerging Practitioner Schools Project. The Lead and Emerging Practitioner Schools project enables strong performing secondary and primary schools (the Lead Practitioner School) to be matched with a school that has already begun its improvement journey (the Emerging Practitioner School) to offer support in delivering improvements in standards and performance.

Head teachers were directly invited and they could select the staff they felt appropriate to ensure minimal impact on schools.

The Teaching and Learning Improvement Branch run training events throughout the year for External mentors who mentor NQTs during statutory induction and for those who opt to study the Masters in Educational Practice (MEP). External mentors are required to attend 6 events over the academic year and we currently have 113 school based mentors.

The National Support Programme: Literacy and Numeracy (NSP) was designed to support all schools in Wales to implement the National Literacy and Numeracy Framework (LNF) by improving the teaching and learning of literacy and numeracy, across all subjects from Reception through to year 9. In total 1600 schools were involved.

A wide range of mechanisms were used to deliver the support to schools, including face to face meetings, workshops on specific issues, on-line resources such as film clips and the development of School to School Networks. The NSP also used coaching and mentoring approaches with school staff to embed the variety of approaches being used.

4. Conclusions

4.1 The findings of the interviews suggest that the strengths of face to face approaches to training include:

- more consistent messages are received when delivering key information, opportunities to open up discussions and encourage collaborative and collective sharing,
- a chance for people who do not normally get to go outside of their own school to network with other professionals and colleagues.
- build ongoing peer networks on the subject being delivered as of a result of meeting other teachers

4.2 It is clear that schools and practitioners do find it valuable to network and work with each other face to face but this does put pressure on the school to cover the absent teachers.

4.3 Weaknesses of face to face training and professional learning activity included:

- Allocating adequate cover for released practitioners can be an issue.

Travel across Wales for national events means long travel time for some practitioners, which can be unfair.
Some practitioners are not released because of school commitments and cover issues.

- 4.4 Policy officials all said that ways to improve future events would be to look into innovative ways to use technology to provide CPD such as online forums, webinars, Hwb and learning platforms.
- 4.5 Other options suggested included peer to peer training, training 'experts' to deliver across the profession and splitting training into smaller modules of bespoke training that target direct needs of individuals.
- 4.6 Further improvements including looking into ways to join up regionally and 'piggy back' onto other events to reduce the number of days practitioners need to travel and be away from classrooms.
- 4.7 The Digital Learning Division who held training to roll out Hwb are currently developing a module approach to training and future sessions will be 2 hours and teachers can choose modules relevant to their own CPD.
- 4.8 The Leadership Policy Branch plan to look at options to remove the NPQH training and have sessions with individuals directly.
- 4.9 The Teaching and Learning Improvement Branch are developing a new Masters in Continuing Educational Practice to build on the success of the current programme. The new Masters provision will be flexible and accessible to all practitioners at any stage of their career. It will be delivered in bespoke modules and enable practitioners to take responsibility for their own professional learning and to contribute to the development of a self-sustaining school improvement system.

5. Outcome

- 5.1 The findings of the review will be used to provide guidance to officials so that they can consider a range of delivery options when wanting to provide learning opportunities to the school workforce. This guidance will ensure that a range of approaches can be considered so that the impact of teacher absence from the classroom forms part of the decision making process.

Eitem 2.2

Sir Derek Jones KCB
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar
Chair - Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

UK March 2015

Dear Darren,

In your letter dated 17 July 2014, you requested an update in Spring 2015 on our response to Recommendation 5 of the Auditor General for Wales's report on the Welsh Government's Location Strategy.

While we welcome the WAO's favourable remarks regarding the engagement work delivered through Y Bont at our offices in Aberystwyth and Llandudno Junction, our response of June 2014 noted that the dedicated staffing of the Y Bont facilities at those offices had to be discontinued on grounds of affordability. We were unable to continue the service at a time of reducing budgets.

The marketing review mentioned in our response covers two main pieces of work. The first was to consider campaigns to be developed in support of a wide range of government policies in the 2015-16 financial year. This work will be completed ahead of the new financial year.

The second part, scheduled for later in the year, was to consider and evaluate all types of public engagement that the WG undertakes and its effectiveness. This forms part of regularly reviewing our communications work to ensure effectiveness and best use of available resources, especially given the changing media landscape and developments in social media.

In this context, I am now of the view that we must be more realistic about the prospect of re-opening Y Bont facilities or extending Y Bont to the Merthyr Tydfil office in the future. This is based on reducing staff budgets, which continues to be a serious challenge for the foreseeable future, and also the fact that the Merthyr office is not designed to accommodate a public space in its reception area. It is prudent to concentrate the marketing review on areas that stand to have the greatest impact on the overall effectiveness of how the Welsh Government is engaging directly with all citizens in communities across Wales. With this in mind, analysis of Y Bont, and whether this type of facility should be extended further, will not form part of this year's marketing review work.

As set out in our original response to the WAO's recommendation, the Welsh Government takes engagement with the public very seriously, and we encourage all of our staff in all of our offices to take responsibility for this, rather than a discrete team. We continue to engage with the public in many ways, including school visits and other outreach work, as well as marketing campaigns, social media work and Ministerial visits. In addition, our First Point of Contact service continues to be available to anyone who wishes to contact the Welsh Government for information or advice. The First Point of Contact extends its service to all parts of Wales and people are able to make contact in a variety of ways – by letter, telephone, email or social media.

Yours,
Derek



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Eitem 2.3



The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

Public Audit Committee
Convener: Paul Martin MSP

Darren Miller AM
Chair
Public Accounts Committee
The Welsh Assembly
Cardiff CF99 1NA

c/- Room T 3.60
The Scottish Parliament
EDINBURGH
EH99 1SP

By e-mail:
SeneddPAC@Assembly.Wales

Direct Tel: (0131) 348 5236
(RNID Typetalk calls welcome)
Fax: (0131) 348 5252
(Central) Textphone: (0131) 348 5415
pa.committee@scottish.parliament.uk

4 March 2015

Dear Darren,

Thank you for your letter of 19 February 2015 regarding arranging a meeting between our Committees in Holyrood in June. My colleagues and I welcome the opportunity to meet with your Committee to discuss our ways of working and issues of mutual interest, particularly given the ongoing work in the devolution of further powers to both the Scottish Parliament and the Welsh Assembly.

We are currently scheduled to meet on the morning of Wednesday 10 June 2015 and would be pleased for you and your colleagues to attend the public part of that meeting. Following that meeting I would propose that the two Committees meet over a working lunch to discuss areas of mutual interest.

If the dates and proposals above are agreeable to you, perhaps our respective clerks could take forward the arrangements for the visit and working lunch.

Yours sincerely

Paul Martin MSP
Convener



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2014 ar Reoli Grantiau

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair gan yr Ysgrifennydd Parhaol	ii.
ADRAN 1: CYFLWYNIAD	1
ADRAN 2: RHEOLI GRANTIAU'N WELL	2
(i) Gwelliannau gan Lywodraeth Cymru	2
(a) Canllawiau a Chymorth i Swyddogion Grantiau	2
(b) System TG	3
(c) Hyfforddiant	4
(d) Gweithio gydag Eraill	5
(e) Mesur Cydymffurfiaeth	7
(f) Deall Costau Gweinyddol	10
(ii) Gwelliannau gan WEFO	11
ADRAN 3: ARIAN	14
(i) Arian gan Lywodraeth Cymru	14
Y Sector Cyhoeddus	15
Y Sector Preifat	16
Y Trydydd Sector	17
(ii) Arian gan WEFO	18
ADRAN 4: Y CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU	20
(i) Y Camau Nesaf i Lywodraeth Cymru	20
(ii) Y Camau Nesaf i WEFO	20

Rhaqair gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Mae arian grant yn hanfodol i wireddu blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'n galluogi sefydliadau sy'n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau penodol gan gychwyn a chynnal gweithgarwch economaidd a chymdeithasol sylweddol. Caiff swm sylweddol o arian ei fuddsoddi mewn grantiau ac rwyf wedi ymrwymo i barhau i roi trefniadau priodol ac effeithiol ar waith i'w rheoli er mwyn i bawb deimlo'n hyderus yn ein prosesau.

Gwnaed cryn ymdrech i wella'n prosesau mewnol. Mae hyn wedi cynnwys rhoi cymorth i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli grantiau. Mae'r gwelliannau hyn wedi digwydd dros sawl blwyddyn ac maent yn cynnwys sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau sy'n ceisio rhoi cymorth cyson ac ymarferol i reolwyr grantiau sy'n gweinyddu'r 400 neu fwy o raglenni ariannu sydd ar waith ar unrhyw un adeg. Mae amrywiaeth o hyfforddiant, canllawiau a thempledi wedi'u datblygu ac maent ar gael i swyddogion eu defnyddio. Mae'r adroddiadau rheoli sy'n deillio o'n systemau TG wedi gwella ac, yn sgil hynny, rydym bellach yn gallu rhannu gwybodaeth bwysig ar draws isadrannau Llywodraeth Cymru. Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol wedi gwella hefyd.

Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd er mwyn rhoi'r camau priodol ar waith i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag arian grant, gan osgoi systemau gorfiwrocataidd a thrwsgl a all fod yn anodd eu gweithredu ac sy'n faich ar bawb. Rydym yn sicr wedi gwneud cryn gynnydd, ond nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn llawn sylweddoli bod modd gwneud rhagor. Ein her yn y blynyddoedd nesaf fydd adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i wneud eisoes er mwyn i reolwyr grantiau roi'r trefniadau hyn ar waith a sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau'n gyson ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Hoffwn gofnodi fy nioch i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac i Swyddfa Archwilio Cymru am eu diddordeb parhaus yn y pwnc hwn a byddwn yn parhau i gydweithio â hwy i wella'n gwaith rheoli grantiau.



Syr Derek Jones
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

1.0. Mae'r ail Adroddiad Blynyddol hwn yn sôn am yr hyn a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf i wella safonau rheoli grantiau ac mae'n nodi'r gwelliannau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddu arian grant yn parhau i fod yn sylweddol ac yn gymhleth.

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am arian a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a hefyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae WEFO wedi'i dynodi'n Awdurdod Rheoli ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru: Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae WEFO yn gweithredu ar ran y Comisiwn Ewropeaidd i gyflawni'r rhaglenni gweithredol y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn er mwyn hybu datblygu twf a swyddi yng Nghymru. WEFO sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu materion rheoli a rheolaethau ar gyfer y rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Er bod y prosesau a'r systemau y mae WEFO a gweddill Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio yn cael eu cysoni lle bynnag y bydd hynny'n briodol, mae gwahaniaethau'n codi hefyd o'r trefniadau rheoleiddio gwahanol. Felly, bydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â WEFO ar wahân lle bydd hynny'n briodol.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad lefel-uchel canlynol o 'grant' i gynnwys yr holl wahanol fathau o daliadau a wneir: pob taliad nad yw'n digwydd drwy broses gaffael a wneir i sefydliad allanol neu i unigolyn am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ac â chyflawni ei dyletswyddau statudol.

1.3. Mae'n bosibl rhannu grantiau Llywodraeth Cymru yn grantiau sydd wedi'u neilltuo ac yn grantiau sydd heb eu neilltuo. Caiff grantiau wedi'u neilltuo eu rhoi at ddiben penodol ac fe'u dyfernir i sefydliadau er mwyn iddynt gyflawni amcanion polisi penodol Llywodraeth Cymru. Caiff grantiau sydd heb eu neilltuo'n eu rhoi gan mwyaf gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dyletswyddau statudol; a hynny'n bennaf i Awdurdodau Lleol a'r GIG. Caiff y sefydliad sy'n derbyn grantiau heb eu neilltuo eu defnyddio ym mha fodd bynnag y mae'n dymuno'u defnyddio i gyflawni amcanion a gwasanaethau lleol, ar yr amod ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r dadansoddiad ariannol wedi canolbwyntio ar arian wedi'i neilltuo oherwydd bod arian heb ei neilltuo'n destun nifer o adroddiadau a phrosesau craffu eraill.

ADRAN 2: RHEOLI GRANTIAU'N WELL

2.0 Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae'r broses rheoli grantiau wedi gwella yn Llywodraeth Cymru ers Adroddiad Blynyddol y llynedd.

(i) GWELLIANNAU GAN LYWODRAETH CYMRU

2.1. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn dal i gynghori rheolwyr grantiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae WEFO yn cydweithio'n glos â'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Golyga gofynion penodol trefniadau ariannu'r Undeb Ewropeaidd nad oes modd bob tro i rywun gysoni'n llwyr brosesau a threfniadau rheolaeth WEFO â rhai gweddill Llywodraeth Cymru, ond addaswyd sawl peth yn ystod y flwyddyn yn llythyr cynnig grant safonol WEFO ac yn y prosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn iddynt fod yn gyson â chanllawiau'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

2.2. Canolbwyntiwyd ar chwe maes allweddol ar gyfer gwella'r broses rheoli grantiau yn Llywodraeth Cymru:

- (a) Canllawiau a Chymorth i Swyddogion Grantiau;
- (b) System TG;
- (c) Hyfforddiant;
- (d) Gweithio gydag Eraill;
- (e) Mesur Cydymffurfiaeth;
- (f) Deall Costau Gweinyddol.

(a) Canllawiau a Chymorth i Swyddogion Grantiau

2.3. Mae cymorth ar gael o hyd i reolwyr grantiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru sy'n hybu gwella parhaus drwy gynnal a datblygu prosesau a safonau ym maes grantiau. Mae'r Safonau Gofynnol ar gyfer ariannu grantiau, sy'n ddull y cytunwyd i'w ddilyn, yn dal i gael eu hymgorffori mewn rhaglenni grantiau. Mae templed safonol y llythyr dyfarnu'n sicrhau cysondeb ar gyfer grantiau ar draws Llywodraeth Cymru ac mae canllawiau cyffredinol ar gyfer grantiau ar gael hefyd i swyddogion i'w helpu yn eu gwaith beunyddiol.

2.4. Cymorth uniongyrchol a ddarperir gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf i swyddogion sy'n ceisio cyngor; ymdrinnir â thua 2,500 o ymholiadau mewnol bob blwyddyn. Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw beth sy'n poeni sefydliadau allanol ynghylch grantiau.

Astudiaeth Achos: Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn rhoi arian grant i adnewyddu safleoedd presennol Awdurdodau Lleol neu i ddatblygu rhai newydd ledled Cymru.

Yn 2012, aseswyd y grant er mwyn deall pam y cafwyd cyn lleied o geisiadau gan Awdurdodau Lleol yn ystod y blynyddoedd cyn hynny. Roedd yr adborth yn awgrymu bod y broses gwneud cais yn rhy gymhleth, yn rhy hir ac yn draul

ar amser a bod angen ei symleiddio.

Ar ôl cael cyngor gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, mae swyddogion wedi rhoi'r newidiadau canlynol ar waith:

- lleihau nifer y ffurflenni y mae'n rhaid eu llenwi - mae cynnig busnes syml 2 i 3 tudalen yn sicrhau bod y meini prawf sydd yn y canllawiau penodol ar gyfer y grant yn cael eu bodloni;
- mae gwella templed yr 'asesiad panel' a'i symleiddio wedi golygu bod modd sgorio'r cynigion yn fwy cyson;
- defnyddir llythyr dyfarnu safonol yn hytrach na fersiynau wedi'u teilwra.

Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan swyddogion grantiau wedi arwain at raglen grantiau sy'n fwy effeithlon ac effeithiol ac mae hyn wedi gwella'r prosesau dyfarnu grantiau o safbwynt Awdurdodau Lleol ac o safbwynt Llywodraeth Cymru. Yn sgil hyn, mae nifer y ceisiadau am yr arian hwn wedi cynyddu'n sylweddol.

(b) System TG

2.5. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod cyfyngiadau'r wybodaeth reoli a'r data corfforaethol sydd ar gael yn gyffredinol i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch grantiau. Yn sgil argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae nifer o gamau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

2.6. Gwnaed gwaith sylweddol ar ddiffinio gofynion TG a gwahanol opsiynau wedi'u harfarnu i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl i gefnogi'r prosesau grantiau. Fodd bynnag, oherwydd gofynion cymhleth Llywodraeth Cymru a natur arbenigol meddalwedd grantiau, mae cryn risg ynghlwm wrth roi system TG newydd ar waith ar hyn o bryd. Cytunwyd y bydd y gwaith gwella'n dal i ganolbwyntio ar sicrhau bod arferion da yn cael eu hymgorffori'n ddyfnach ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru wrth roi prosesau a gweithdrefnau grantiau ar waith, gan wella'r system TG bresennol drwy gyflwyno gwelliannau tactegol yn hytrach na thrwy gyflwyno system TG newydd sbon.

2.7. Mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu adroddiadau gwybodaeth reoli cynhwysfawr ar sail y system e-Grantiau bresennol. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o werth a nifer y grantiau a gynigiwyd a'r arian a dalwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gymharu'r hanes diweddar â gweithgarwch y flwyddyn gyfredol.

2.8. Datblygwyd adroddiadau ariannol hefyd sy'n dangos gwybodaeth wedi'i seilio ar strwythur ariannol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y grantiau yr ymrwymwyd iddynt a'r grantiau sy'n cronni, a hynny fesul portffolio Gweinidogion. Mae hyn yn golygu bod pethau'n fwy clir i swyddogion. Cyflwynwyd cyfleusterau chwilio manylach sy'n golygu bod swyddogion yn gallu gweld gwybodaeth am grantiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn help i rannu gwybodaeth ac i leihau dyblygu.

2.9. Mae'r system diwydrwydd dyladwy ar gael o hyd i swyddogion ei defnyddio drwy Lywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth am sefydliadau a/neu unigolion gan

ddarparu pwynt cyswllt i swyddogion sy'n awyddus i gael rhagor o fanylion. Mae ymchwiliad diwydrwydd dyladwy newydd wedi'i gyflwyno sy'n cynnig golwg gynhwysfawr ar y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am sefydliad/unigolyn. Mae hyn yn golygu bod dull Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar gael yn y system TG.

2.10. Gwelliant arall i'r system TG yw bod PayGrants wedi'i ddatblygu drwy ailfrandio a gwella'r system daliadau e-Grantiau bresennol. Mae PayGrants yn cynnwys dewislenni gwell sy'n adlewyrchu rhai o brosesau'r grantiau (o'r llythyr dyfarnu i'r taliad) ac mae hefyd yn cynnwys y system diwydrwydd dyladwy. Mae'r system hon hefyd yn cynnwys dolenni at gofnodion hyfforddi i gadarnhau bod swyddogion wedi cael hyfforddiant priodol cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r system TG.

2.11. Mae adroddiadau manylach, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth na'r hyn sydd ar gael yn yr e-Grantiau ar hyn o bryd, yn rhan o PayGrants hefyd. Mae hyn yn cynnwys gwneud data'r cynllun grant yn gliriach. Mae'r system PayGrants wrthi'n cael ei rhoi ar waith fesul cam ac mae hyn yn cynnwys hyfforddiant wyneb-yn-wyneb er mwyn i swyddogion allu deall a defnyddio'r system yn gywir a sylweddoli beth yw goblygiadau bwydo gwybodaeth yn anghywir. Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o waith ehangach y Tîm Grantiau a hynny'n rhan o'r broses newid diwylliant.

(c) Hyfforddiant

Hyfforddiant Mewnol

2.12. Mae hyfforddiant yn arf pwysig er mwyn gwella sgiliau ac arferion rheoli grantiau drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r cyrsiau hyfforddi'n helpu swyddogion i fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae angen eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn darparu rhaglenni grantiau. Mae tri chwrs hyfforddi cyfrifiadurol ar waith o hyd ac ar gael i swyddogion eu dilyn:

- hyfforddiant grantiau i Uwch Swyddogion Perthnasol: golwg gyffredinol lefel uchel ar y prosesau rheoli grantiau;
- hyfforddiant grantiau i Reolwyr Grantiau: wedi'i anelu at swyddogion sy'n gyfrifol am reoli grantiau o ddydd i ddydd;
- hyfforddiant e-Grantiau i Ardystwyr ac Awdurdodwyr: wedi'i anelu at swyddogion sy'n defnyddio'r system dalu e-Grantiau ac mae hwn yn orfodol i unrhyw swyddog y mae'n ofynnol iddo gael mynediad i'r system.

2.13. Mae sesiynau hyfforddi wyneb-yn-wyneb i swyddogion ar gael o hyd yn amrywiol swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Sesiynau grŵp yw'r cyrsiau rhyngweithiol hyn ac maent yn cynnig sesiynau hyfforddi ymarferol am brosesau rheoli grantiau. Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

- datblygu ffurflen gais;
- arfarnu;
- monitro;
- gwerthuso;

Adroddiad Blynyddol 2014 Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau

- deall Risg;
- gweithio gyda'r Trydydd Sector;
- y tudalennau Diwydrwydd Dyladwy.

2.14. Mae rhagor o waith ar y gweill i ddatblygu modiwlau hyfforddi ychwanegol a bydd y rhain ar gael yn ôl y gofyn.

2.15. Bydd pob agwedd ar yr hyfforddiant yn cael ei hadolygu a'i diweddarau i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y busnes. Mae swyddogion yn gallu rhoi adborth ar ddiwedd y cyrsiau ac wedyn, defnyddir yr adborth hwn i wella cynnwys yr hyfforddiant eto. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac wedi dangos bod swyddogion yn croesawu'r cymorth parhaus a'r cyngor a gânt, a'r canllawiau a'r hyfforddiant sy'n dal i gael eu darparu.

Hyfforddiant Allanol

2.16. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu cyfres o raglenni hyfforddi i Awdurdodau Lleol drwy gyfrwng y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Darparwyd yr hyfforddiant i Awdurdodau Lleol drwy gynnal digwyddiadau rhanbarthol a sesiynau thematig. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi ym mis Mehefin ledled Cymru gyda'r nod o wella arferion da a thrafod sut i reoli grantiau'n gyffredinol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru ar gael i helpu i ateb unrhyw gwestiynau

2.17. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi darparu hyfforddiant i Awdurdodau Lleol gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol sy'n cael arian grant. Roedd yr hyfforddiant yn trafod themâu cyffredin megis trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau archwilio gan ganolbwyntio ar helpu Awdurdodau Lleol i ddeall sut y gallant wella'u gweithdrefnau hwy eu hunain er mwyn gwneud prosesau'r grantiau a'r archwilio mor syml a chydymffurfiol â phosibl. Cynhaliwyd pum cwrs drwy Gymru gyda rhyw 200 yn bresennol ynddynt. Roedd yr adborth yn gadarnhaol.

(d) Gweithio gydag Eraill

Swyddfa Cabinet y DU

2.18. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn dal i gael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn Swyddfa'r Cabinet. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn awyddus i ddysgu yn sgil y gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghymru eisoes ar wella'r prosesau rheoli grantiau. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i rannu gwybodaeth bwysig â Swyddfa'r Cabinet. Mae hyn wedi cynnwys yr hyfforddiant cyfrifiadurol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ac y mae Swyddfa'r Cabinet wedyn wedi lledaenu'r hyfforddiant hwn drwy Lywodraeth y DU.

Grŵp Llywodraethu Da

2.19. Llywodraeth Cymru yw prif ddarparwr arian grant yng Nghymru. Yn y cyswllt hwnnw, mae mewn sefyllfa dda i rannu cudd-wybodaeth â darparwyr cyllid eraill am unrhyw sefydliad y mae wedi rhoi arian grant iddo.

2.20. Mae'r Grŵp Llywodraethu Da yn cynnwys prif ddarparwyr grantiau megis y Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrrff priodol eraill. Cadeirir y grŵp gan Lywodraeth Cymru a'i bwrpas yw trafod a rhannu'r arferion gorau a gwybodaeth am gyrff allanol ac unigolion. Os bydd rhywun wedi codi pryder neu fater penodol ynghylch sefydliad, mae'r drefn hon yn golygu bod y grŵp yn gallu gwneud penderfyniadau doeth. Ni fydd pob gwybodaeth a drafodir o reidrwydd yn arwain at dynnu'r arian a roddwyd i sefydliad penodol yn ôl, ond gall fod yn system rhybudd cynnar er mwyn i bob aelod o'r grŵp ystyried effaith y wybodaeth hon, a gweithredu os bydd hynny'n briodol.

2.21. Un o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyda'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei sesiwn dystiolaeth ym mis Mehefin 2014 oedd y dylai'r grŵp gyfarfod yn fwy rheolaidd. Gan ymateb i'r pryder hwn, adolygwyd cylch gorchwyl y grŵp i ganolbwyntio ar rannu arferion gorau ac mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu; cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2014 a bwriedir cynnal rhagor o gyfarfodydd bob pedwar mis. Mae'r grŵp bellach yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru.

Astudiaeth Achos: Rhannu Gwybodaeth

Bu nifer o achosion lle y cafodd pryderon ariannol a llywodraethu yn ymwneud â sefydliadau eu dwyn i sylw swyddogion. Mewn ambell achos mae'r rhain wedi cynnwys twyll posibl. Drwy gynnwys y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a rhannu gwybodaeth am sefydliadau drwy ddefnyddio'r tudalennau Diwydrwydd Dyladwy yn effeithiol, llwyddwyd i dynnu sylw at y pryderon hyn a rhoi gwybod i bartïon perthnasol amdanynt.

Er enghraifft, dyfarnwyd arian Llywodraeth Cymru i un o gyrff y trydydd sector ond wrth adolygu ei sefyllfa ariannol wedyn, gwelwyd bod pryderon sylweddol yn ei gylch. Cadwyd golwg ar y sefydliad a phan waethygodd ei sefyllfa ariannol eto ac y daeth yn amlwg na allai'r sefydliad gydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant mwyach, tynnwyd yr arian yn ôl. Yn sgil adolygu'r wybodaeth ar y tudalennau Diwydrwydd Dyladwy, rhybuddiwyd swyddog mewn rhan arall o Lywodraeth Cymru am y sefydliad, a thynnwyd yr arian a ddyfarnwyd yn y fan honno yn ôl hefyd.

Drwy rannu gwybodaeth ar y tudalennau Diwydrwydd Dyladwy a gwaith y Grŵp Llywodraethu Da, mae swyddogion wedi gallu gwneud penderfyniadau ariannu doeth. Mae hyn hefyd wedi grymuso swyddogion i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon i ymchwilio i unrhyw beth sy'n eu poeni ac i gadw neu dynnu arian yn ôl fel y bo'n briodol.

Awdurdodau Lleol ac Amodau

2.22. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi beirniadu trefniadau rheoli grantiau Awdurdodau Lleol yn y gorffennol a nifer yr amodau a gofnodwyd yn erbyn hawliadau i Lywodraeth Cymru. Yn sgil hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad a oedd yn canolbwyntio ar y ffactorau a arweiniodd at gyhoeddi'r llythyrau amodi. Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at nifer o faterion gan gynnwys:

Adroddiad Blynyddol 2014 Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau

- y broses a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i benderfynu pa grantiau y mae angen eu harchwilio;
- cynnwys y cyfarwyddiadau archwilio a roddir i Swyddfa Archwilio Cymru;
- camau dilynol gan reolwyr grantiau;
- eglurdeb y canfyddiadau archwilio ar draws Llywodraeth Cymru.

2.23. Mae nifer o argymhellion wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gyda'r nod o leihau nifer y llythyrau amodi a gyhoeddir a gwella'r gwerth am arian.

(e) Mesur Cydymffurfiaeth

Archwiliadau Iechyd Llywodraeth Cymru ar Grantiau (Hapwiriadau)

2.24. Rhoddwyd proses yr hapwiriadau ar waith yn gyntaf i atgyfnerthu cydymffurfiaeth barhaus â'r Safonau Gofynnol ac i helpu rheolwyr grantiau lle'r oedd angen gwelliannau. Ar y dechrau, nod y broses oedd edrych ar ddarn penodol o ddogfennaeth a oedd yn gysylltiedig â phrosesau mewnol rhoi cynllun grantiau ar waith, e.e. cyfarwyddiadau desg. Ni fwriadwyd erioed i'r broses hon gael ei defnyddio yn erbyn sefydliad neu gorff penodol. Nid oedd ychwaith mor fanwl nac mor ddwfn â'r broses archwilio mewnol. Datblygwyd y trefniadau hyn i helpu rheolwyr grantiau i wella'u prosesau ac nid oherwydd bod angen cofnodi methiannau.

2.25. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gofyn am gynnwys gwybodaeth am werth y grantiau nad oeddent yn cydymffurfio yn ogystal â gwybodaeth am y cyfraddau cydymffurfio, yn yr adroddiad hwn. Yn y 19 mis hyd ddiwedd mis Mehefin 2014, cyflwynwyd dros 250 o geisiadau i reolwyr grantiau am ddarparu amrywiol eitemau o ddogfennaeth fewnol. Roedd 11 o ddogfennau wedi'u cofnodi'n fethiant. Enghreifftiau o fethiant yw bod cyfarwyddiadau desg yn anghyflawn a bod rhywun wedi defnyddio hen dempledi ar gyfer llythyrau dyfarnu yn hytrach na'r fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael. Cyfanswm gwerth y grantiau a oedd yn gysylltiedig â'r dogfennau a oedd yn fethiant oedd £8,384,598. Nid yw methiant yn y ddogfennaeth fewnol yn fethiant sy'n gysylltiedig â'r corff a ariennir nac â'r gwaith y mae'n ei wneud; nid oedd yr hapwiriadau'n dangos bod y grant wedi'i ddyfarnu'n anghywir na bod y corff a ariennir yn camddefnyddio'r arian grant, na bod unrhyw fath o risg i'r arian. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi a chywiro diffygion o'r fath, ac mae'r hapwiriadau'n golygu bod modd gwneud hynny.

2.26. Mae proses cynnal a chofnodi'r hapwiriadau wedi'i hadolygu oherwydd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch natur y gwiriadau. Mae'r broses wedi'i hailenwi'n "Archwiliadau Iechyd Grantiau" er mwyn osgoi dryswch ynghylch natur y gweithgarwch ac er mwyn gwahaniaethu rhwng y profion hyn a hapwiriadau WEFO; mae hapwiriadau WEFO yn cynnwys asesu i ba raddau y mae sefydliadau allanol yn cydymffurfio â'r drefn.

2.27. Mae'r broses newydd yn parhau i fod yn seiliedig ar ddeialog agored â rheolwyr grantiau. Rhoddir cymorth ac anogaeth iddynt gysoni dogfennau mewnol â'r arferion gorau sydd ar waith eisoes ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg. O dan y broses newydd Archwiliadau Iechyd Grantiau a ddechreuodd ym mis Medi 2014, mae rheolwyr grantiau'n dal i ddarparu tystiolaeth ond mae'r gwiriadau'n edrych ar y dogfennau a ddefnyddir yn ystod un rhan o'r cylch ariannu, er enghraifft y broses ymgeisio am grantiau neu adolygu grŵp o weithgareddau cysylltiedig, megis

defnyddio'r system dalu. Bydd y profion iechyd hyn yn golygu bod pobl yn deall y prosesau a'r gweithdrefnau a gyflawnir gan reolwyr grantiau'n fwy trwyadl.

Gwiriadau WEFO (Hapwiriadau)

2.28. Bydd WEFO yn cynnal gwiriadau rheoli (hapwiriadau) i sicrhau bod y gwariant sy'n cael ei ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd yn gywir, bod y cynnyrch neu'r gwasanaethau wedi'u darparu yn unol â'r penderfyniad cymeradwyo, bod y ceisiadau am ad-daliad gan y buddiolwr yn gywir a bod y gweithredu a'r gwariant yn cydymffurfio â rheolau'r gymuned a rheolau cenedlaethol.

2.29. Mae'r gyfradd wallau ar gyfer rhaglenni 2007 -2013 yn mesur cyfanswm gwerth y gwariant afreolaidd a adroddir wrth y Comisiwn Ewropeaidd fel canran o gyfanswm y gwariant ardystiedig cymwys a hawlir gan brosiectau. Canran y gwallau ar gyfer pob rhaglen weithredol yw 0.73%, sy'n cael ei dosbarthu fesul rhaglen fel a ganlyn:

Ffigur 1: Cyfanswm y Gwariant a Ddatganwyd ar gyfer Cyfanswm yr Afreolaidd-dra yr Adroddwyd yn ei gylch wrth y Comisiwn Ewropeaidd

Rhaglen	Gwariant a Ddatganwyd (€)	Gwariant Anghyson (€)	% Cyfradd Wallau
Cystadleurwydd ERDF	95,578,430	1,266,377	1.32
Cystadleurwydd ESF	106,627,244	355,084	0.33
Cydgwyfeirio ERDF	1,258,786,784	11,004,009	0.87
Cydgwyfeirio ESF	809,508,919	3,922,214	0.48
Cyfanswm	2,270,501,377	16,547,684	0.73

Ffynhonnell: System ariannu WEFO

2.30. Mae WEFO wedi cryfhau'r gwiriadau rheoli eto ar gyfer rhaglenni 2007-2013 drwy ddiwygio cwrpas y sampl a detholir, gan ystyried y risgiau ar lefel noddwyr unigol a chan sicrhau bod o leiaf 10% yn cael eu cynnwys. Mae WEFO wedi recriwtio aelodau o staff ychwanegol i gynnal y dilysiadau hyn ac wedi trefnu i Bennaeth Atal Twyll Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant arbenigol i staff sy'n cynnal y gwiriadau rheoli, gan gynnwys yr elfennau pwysig i helpu i atal a chanfod gwallau, er enghraifft; dangosyddion twyll, risg gwrthdaro rhwng buddiannau, gwiriadau diwydrwydd dyladwy, ac astudiaethau ar achosion penodol sy'n edrych ar ddilysrwydd dogfennau anfonebu.

Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

2.31. Cyhoeddwyd Cynllun newydd ar gyfer y Trydydd Sector a Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector ym mis Ionawr 2014.

2.32. Mae'r Cod newydd yn rhestru'r 17 egwyddor sy'n sail i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector er mwyn galluogi perthynas ariannu iach. Mae pob Egwyddor yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant ac maent yn cynnwys materion pwysig megis Penderfyniadau Prydlon (IV), Amrywiaeth (XIV), Llywodraethu Da (XVI), Deialog Gynnar ac Adeiladol (III), Lefelau Ariannu Teg (VI) a Thaliadau (X). Mae Egwyddor IV yn cyfeirio at roi gwybod am arian a fydd ar gael yn y dyfodol o leiaf dri mis cyn i'r cytundeb ariannu presennol ddod i ben.

2.33. Mae'r Cod newydd yn annog perthynas fwy agored rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector ynghyd â hunanadroddiadau rhagweithiol ar unrhyw achlysuron lle nad yw egwyddorion y Cod wedi'u dilyn. Mae hyn yn wahanol i'r drefn a'r arfer blaenorol a oedd yn dibynnu ar hysbysu Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gan y sefydliad yr effeithir arno yn y Trydydd Sector.

2.34. Gofynnwyd i reolwyr Grantiau Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth ynglŷn â dilyn Egwyddorion y Cod, yn benodol, hysbysu sefydliadau'n brydlon am yr arian. Adroddwyd am nifer fach o achlysuron lle nad oedd gofynion Egwyddor IV wedi'u bodloni. Roedd yr achlysuron hyn yn ymwneud â grantiau penodol ac nid oeddent yn canolbwyntio ar unrhyw faes penodol.

2.35. Gan amlaf, lle nad oedd rhaglenni grantiau i bob golwg yn cydymffurfio ag Egwyddor IV, roedd rheolwyr y grant wrthi'n trafod neu'n negodi â'r cyrff dan sylw yn y Trydydd Sector yn ei gylch, yn unol ag Egwyddor III y Cod Ymarfer sy'n dweud bod angen cynnal deialog gynnar ac adeiladol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y broses hunanadrodd yn ddigon trwyadl a bod rhaglenni grantiau eraill yn cydymffurfio ag Egwyddor IV.

2.36. Mae canolbwyntio'n gryf ar ystyried cydymffurfiaeth ag Egwyddor IV yn ddefnyddiol er mwyn hyrwyddo'r Cod i reolwyr grantiau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r canolbwyntio hwn yn golygu bod llai o bwys yn cael ei roi ar yr 16 Egwyddor arall a dylid cofio'u bod yn ymwneud â materion pwysig eraill megis Amrywiaeth (XIV) a Llywodraethu Da (XVI). Mae'n bosibl hefyd y bydd cwynion yn codi am egwyddorion megis Deialog Gynnar ac Adeiladol (III); Lefelau Ariannu Teg (VI) neu Daliadau (X).

2.37. Dyma rai o'r camau sy'n cael eu cymryd i asesu i ba raddau y mae'r Egwyddorion yn cael eu mabwysiadu'n gyffredinol: Y Ganolfan Ragoriaeth ac Uned y Trydydd Sector yn cydweithio â rheolwyr grantiau i gryfhau ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gallu codi wrth hysbysu ymgeiswyr yn hwyr ynghylch yr arian; o ran cynlluniau grantiau sydd heb gydymffurfio ag Egwyddor IV, egluro'r rhesymau a chanolbwyntio ar sut y gellid osgoi hyn mewn cylchoedd cyllido yn y dyfodol; nodi'r arferion da a'u rhannu drwy roi hyfforddiant ar ariannu'r Trydydd Sector; datblygu rhaglen dreigl i brofi cynlluniau grantiau, yn enwedig o ran cydymffurfio ag Egwyddor IV o'r Cod.

2.38. Yn ogystal â hyfforddiant a chanllawiau, ymchwilir i ddulliau eraill i sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r Cod, megis defnyddio cloc cyfrif i lawr ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd/Rhagfyr; mae hwn yn dangos bob dydd faint o amser sydd ar ôl i roi gwybod i sefydliad yn y Trydydd Sector am benderfyniadau ariannu yn y dyfodol.

Astudiaeth Achos: Grant Iechyd Meddwl Adran 64

Mae grant iechyd meddwl Adran 64 yn rhoi arian i gyrff cenedlaethol y Trydydd Sector sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl. Yn y gorffennol roedd y ceisiadau a'r adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd yn amrywio'n sylweddol - o ran eu cynnwys a'u hansawdd.

Gan sylweddoli hyn, aeth swyddogion ati i gynnal adolygiad sylfaenol o'r drefn

arian grant yn ei chrynswth.

Er mwyn hybu cysondeb, datblygwyd templedi gan swyddogion i sicrhau bod gwybodaeth gyflawn a chywir yn cael ei chyflwyno, a bod targedau SMART yn cael eu datblygu. Lledaenwyd cyfres o weithdai i sefydliadau er mwyn egluro'r trefniadau monitro, adrodd a llywodraethu newydd. Y canlyniad oedd rhagor o eglurdeb, gwell dealltwriaeth (gan dderbynwyr grantiau o ofynion Llywodraeth Cymru) ac adroddiadau cynnydd cryno, manwl a pherthnasol.

Mewn ysbryd o welliant parhaus, bu defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn ymwneud yn frwd ag asesu ceisiadau 2015-18. Mae'r datblygiad arloesol hwn yn sicrhau bod sefydliadau'n gweithio nid dim ond i ymateb i bolisiau Llywodraeth Cymru ond hefyd i anghenion a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol 2014

2.39. Ymarfer paru data yw'r Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol. Y Comisiwn Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol amdano. Bydd y Cynllun yn cael ei roi ar waith bob 2 flynedd ac, ers ei gyflwyno yn 1996, mae wedi canfod twyll a gordaliadau gwerth cyfanswm o £26 miliwn yng Nghymru a £1.17 biliwn ledled y DU.

2.40. Mae Llywodraeth Cymru unwaith eto'n cymryd rhan yn y Cynllun i ddangos mewn ffordd ragweithiol ei hymrwymiad i ganfod twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwybodaeth sy'n deillio o'i chyflogres a'i systemau talu cyflenwyr, gan gynnwys gwybodaeth am dderbynwyr grantiau, i'r Comisiwn Archwilio a bydd y wybodaeth hon yn cael ei pharu ag amrywiaeth o fathau eraill o wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau eraill.

2.41. Mae templed dyfarnu grant safonol Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymal cyffredinol sy'n rhoi gwybod i gyrff a ariennir bod yn rhaid iddynt gymryd rhan mewn cynlluniau atal twyll fel hyn. Wrth ymateb i bryderon y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ddiffyg cysondeb yn y gofyniad i sicrhau bod gyrff a ariennir yn cymryd rhan mewn cynlluniau fel hyn, mae WEFO ar hyn o bryd yn diwygio'r llythyr dyfarnu a ddefnyddir ar gyfer y cylch cyllido nesaf i gynnwys y geiriad hwn.

(f) Deall Costau Gweinyddol

2.42. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud o'r blaen pa mor anodd yw gwahanu'r costau gweinyddol sydd ynghlwm wrth arian grant. Bydd grantiau'n aml yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o ddatblygu a gwireddu polisiau'n ehangach ac mae'n anodd gwahanu cost datblygu'r polisi, prosesau rheoli grantiau a'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â hwy. Yn yr un modd, mae Swyddfa'r Cabinet hefyd wedi methu â phennu mewn ffordd gyson y costau gweinyddol sylfaenol ar gyfer grantiau drwy Adrannau Llywodraeth y DU.

2.43. Gan ymateb i bryderon y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch costau gweinyddol, mae nifer o grantiau wedi'u hadolygu erbyn hyn. Roedd y rhain yn cynnwys grantiau mawr a bach i gyrff preifat a chyrrff y trydydd sector a rhai grantiau i unigolion.

2.44. Er bod grantiau'n amrywio'n fawr o ran eu natur a'u maint, roedd y canfyddiadau'n dangos amrywiad sylweddol yn lefel y costau gweinyddol. Roedd y costau gweinyddol fesul grant a ddyfarnwyd yn amrywio o £45 i £13,843, sydd, o'u hystyried yn ganran o swm yr arian grant a roddwyd, yn amrywio o 0.27% i 77.5%.

2.45. Dylai prosesau o'r naill ben i'r llall fod yn gymesur ac yn briodol ar gyfer y rhaglen grant dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid dilyn proses 'sylfaenol' bob tro, beth bynnag fydd lefel yr arian grant. Mae'r prosesau sylfaenol safonol hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n berthnasol i'r broses ymgeisio, arfarnu, diwydrwydd dyladwy, gweithdrefnau cymeradwyo, trefniadau ariannu, prosesau talu a monitro. O ran rhai rhaglenni grantiau, mae'n bosibl cyflawni'r prosesau hyn 'â chyffyrddiad ysgafn', lle bydd lefel y risg a symiau'r grantiau'n isel. Fodd bynnag, bydd canrannau'r costau gweinyddol ar gyfer grant bach bob tro'n uwch nag ar gyfer grant mawr, oherwydd bod angen cyflawni'r prosesau sylfaenol bob tro.

2.46. Er enghraifft, mewn dau o'r dyfarniadau grant a adolygwyd ar gyfer rhaglen a oedd yn rhoi grantiau bach i unigolion, roedd y costau gweinyddol yr un fath, sef dim ond £45. Ar gyfer y grant mwy, sef £996, mae hyn gyfystyr â dim ond 4.55% o'r grant a ddyfarnwyd, ond ar gyfer y grant llai o £58, mae'n 77.5%

2.47. Mae'r enghraifft hon yn dangos yn glir bod lefel y grant yn cael effaith sylweddol ar ganran y costau gweinyddol. Yr unig ffordd o gael darlun cywir o gostau gweinyddu pob rhaglen grantiau yn Llywodraeth Cymru fyddai adolygu pob grant unigol a ddyfernir oherwydd bod costau gweinyddu'r grantiau'n amrywio'n sylweddol, hyd yn oed o fewn yr un rhaglen. O gofio bod tua 18,000 o grantiau'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, byddai'r ymarfer hwn yn gostus ac yn anymarferol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn benderfynol o leihau costau gweinyddol rheoli grantiau. Bydd lleihau costau gweinyddol a biwrocratiaeth yn rhan o'r gwaith parhaus i wella'r Prosiect Grantiau.

Astudiaeth Achos: Papurau Bro

Mae rhaglen y Papurau Bro yn dyfarnu grantiau bach i helpu i gyhoeddi a dosbarthu papurau bro Cymraeg. Ar sail cyngor a gafwyd gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, argymhellwyd y dylid newid y rhaglen grantiau a'u dyfarnu bob tair blynedd yn hytrach na bob blwyddyn.

Roedd newid o drefn flynyddol i drefn bob tair blynedd yn golygu llai o ofynion gweinyddol yn gyffredinol. Roedd llai o waith gweinyddol ynghlwm wrth arfarnu ceisiadau, wrth baratoi llythyrau dyfarnu ac ati. Dros gyfnod o dair blynedd, llwyddwyd i arbed £10,707 ar gyfanswm y costau.

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2016, dyfarnwyd 51 o grantiau, gwerth cyfanswm o £261,030. Mae'r arbedion yn cyfateb i £209.95 am bob grant a ddyfarnwyd a 4.1% o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd dros y tair blynedd.

Roedd y newid hefyd yn arbed costau i'r ymgeiswyr gan mai dim ond un cais am grant yr oedd angen iddynt ei baratoi yn ystod y cyfnod yn hytrach na thri.

(ii) Gwelliannau WEFO

Ymateb i Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru

2.48. Mae WEFO wedi bod yn rhoi ar waith y gwersi a ddysgwyd yn sgil nifer o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru fel y'u trafodwyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 12 Mehefin 2014. Mae mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion hyn yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cylch cyllido 2014 - 2020 ac fe ystyriwyd pob argymhelliad yn ofalus. Er enghraifft, mae canllawiau i'r broses ymgeisio, gan gynnwys beth yn union a fydd yn ofynnol ym mhob cais, wedi bod ar gael ers mis Mai 2014, ac mae hyn o gymorth i ddarpar fuddiolwyr gael syniad faint o amser y mae eu cais yn debygol o'i gymryd, yn dibynnu ar ei gymhlethdod a'i newydd-deb. Mae blaenoriaethau WEFO wedi'u hegluro drwy sefydlu'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd a chyhoeddi'r rhaglenni gweithredol drafft yn gynnar, sydd ymhell ar y blaen i'r rhai yng ngweinyddiaethau eraill y DU.

2.49. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach wedi cymeradwyo'r holl Raglenni Gweithredol ar gyfer 2014 - 2020. Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gael cymeradwyo'i rhaglenni ac roedd ymhlith y rhai cyntaf drwy'r Undeb Ewropeaidd. Mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi'r prosiect cyntaf a gymeradwywyd ar gyfer Prifysgol Aberystwyth ac mae lluo o brosiectau cryf eraill yn dynn wrth ei sodlau. Mae WEFO wedi gallu achub y blaen ar weinyddiaethau eraill drwy weithio gyda darpar fuddiolwyr ar raglenni drafft, prosesau ymgeisio a chanllawiau gan sicrhau bod cyn lleied o risg ag y bo modd o orfod ail-weithio ar ein paratoadau pan fyddai'r rhaglenni'n cael eu cymeradwyo'n derfynol.

2.50. Mewn rhai meysydd, mae cyfyngiadau wedi bod ar y manylion y gellir eu darparu. Er enghraifft, dim ond ym mis Hydref 2014 y cwblhaodd y Comisiwn y rheoliadau manwl ar gyfer yr Opsiynau Cost Symlach. Mae'r Opsiynau Cost Symlach yn effeithio ar sut y caiff rhai prosiectau eu datblygu, ac mewn rhai ffyrdd, bydd angen i WEFO barhau i ddatblygu'r opsiynau am beth amser eto. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r gwaith ar brosiectau strategol gyda darpar fuddiolwyr yn mynd rhagddo'n dda ac felly bydd modd eu hystyried i'w cymeradwyo'n gyflym iawn ar ôl i'r Comisiwn gymeradwyo Cytundeb Partneriaeth y DU a Rhaglenni Gweithredol Cymru.

Prosesau a Systemau Busnes

2.51. Rhaglen TG integredig ar y we yw PPIMS (System Reoli Gwybodaeth Raglenni a Phrosiectau) a ddefnyddir gan WEFO i weinyddu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae'r system wedi'i theilwra ar gyfer gofynion penodol rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n helpu i gynnal disgyblaeth wrth roi prosesau busnes ar waith. Mae'r Comisiwn yn cyfeirio gweinyddiaethau eraill yn Ewrop yn rheolaidd at Gymru fel esiampl.

2.52. Adnewyddwyd pryd a gwedd WEFO Ar-lein (nodwedd allanol PPIMS) a gwnaed gwelliannau i'r broses we-lywio hefyd ar ôl cael adborth gan ddefnyddwyr. Mae strwythur y ffolderi ffeilio dogfennau wedi'i newid er mwyn symleiddio'r gwaith cofnodi a chadw dogfennau.

2.53. Mae WEFO wedi addasu PPIMS mewn sawl ffordd i gyd-fynd â'r prosesau mewnol gan gynnwys:

- gwella'r ffordd y gall noddwyr gyflwyno tystiolaeth i gefnogi rhestrau'r trafodion sy'n cyd-fynd â phob hawliad i WEFO;
- gwella'r ffordd y mae Materion a Gweithredoedd yn gweithio, gan greu cysylltiadau mwy clos â dynodi a rheoli risgiau a gwneud pethau'n fwy clir;
- symleiddio'r gwaith Ailwerthuso (sy'n golygu bod modd ail-arfarnu prosiectau a'u newid yn ystod eu hoes), gan sicrhau bod y broses yn gyflymach i gwsmeriaid a'i bod hi'n haws dilyn llwybr archwilio clir.

Hyfforddiant

2.54. Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu'n barhaus ar gyfer staff WEFO a buddiolwyr. Wrth baratoi ar gyfer y rhaglenni newydd, mae cyfres o fodiwlau hyfforddi ar y gweill, sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio ar gyfer y cylch cyllido newydd, gan gynnwys:

- yr angen am achos busnes clir i ategu'r ymyriad arfaethedig;
- cyflawni canlyniadau;
- gofynion y comisiwn o ran monitro ac adrodd;
- paratoi ar gyfer archwiliadau llwyddiannus;
- cadw dogfennau;
- rheoli ansawdd.

2.55. Yn fewnol, mae tîm Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru wedi darparu hyfforddiant ar reoli risgiau ac ar ymwybyddiaeth o dwyll i staff WEFO ac mae tîm Newid Busnes WEFO wedi sicrhau bod gan y staff y wybodaeth ddiweddaraf am wella pob proses fusnes wrth ei rhoi ar waith.

Adolygu Prosiectau

2.56. Bydd adolygiadau prosiect rheolaidd yn cael eu cynnal ar bob gweithrediad. Mae WEFO yn ystyried yn barhaus i ffordd orau o wneud hyn, yn enwedig wrth agosáu at gamau olaf rhaglenni 2007-2013, a phan fydd her cwblhau'r prosiectau yn unol â'r cynllun a'r gyllideb yn pwysu mwy, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n cael cymaint o ddylanwad â phosibl. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig i holl swyddogion WEFO sy'n gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy a chyflawni canlyniadau. Er nad yw hyn yn newydd, mae'r canllawiau'n dangos eto pa mor bwysig yw cynnal cyfarfodydd adolygu ffurfiol.

Rheoli Dogfennau

2.57. Gan ymateb i argymhellion archwiliadau ynghylch lleoliad a dosbarthiad dogfennau, ac er mwyn diweddarau canllawiau adrannau rheoli cofnodion a chadw dogfennau'r Comisiwn, mae WEFO wedi symleiddio'r prosesau ar gyfer metadata (gwybodaeth am berfformiad prosiectau sy'n gysylltiedig â phob hawliad i WEFO) ac mae canllawiau diwygiedig wedi'u rhoi i swyddogion ac i fuddiolwyr (noddwyr prosiectau).

ADRAN 3: ARIAN

3.0. Yn yr adran hon, rhoddir golwg gyffredinol ar y grantiau a roddwyd i'r gwahanol sectorau a manylion amdanynt, gan nodi'r arian a ddaw'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (3(i)) a'r arian a ddaw gan WEFO (3(ii)).

(i) ARIAN GAN LYWODRAETH CYMRU

3.1. Roedd Adroddiad Blynyddol y llynedd yn dangos bod anawsterau o ran y ffordd y cyflwynwyd adroddiadau am yr arian ym mhob sector. Er bod y cyfanswm cyffredinol yr arian grant yn gywir, roedd pryder nad oedd ffigurau'r sectorau unigol o bosibl yn gywir.




3.2. Mae llawer o waith wedi'i wneud i wella gwaith paratoi adroddiadau am system ariannol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae bron 64,000 o sefydliadau wedi'u hadolygu gan neilltuo allwedd diwydiant priodol i bob sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi galluogi'r system i ddyrannu codau cyllid priodol yn awtomatig ar gyfer pob gwariant. Mae hyn wedi gwella cysondeb yr adroddiadau drwy ddileu'r posibilrwydd o wallau dynol wrth gategoreiddio arian grant.

3.3. Mae'r newidiadau wedi gwella cywirdeb gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru ac yn y pen draw wedi gwella'i gallu i baratoi adroddiadau, ond proses barhaus yw'r broses wella hon. Er bod cryn amser ac ymdrech wedi'u buddsoddi i roi'r newidiadau hyn ar waith, mae angen addasu sawl peth o hyd. Rhoddir y newidiadau sy'n weddill ar waith ym mlynnyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16.

3.4. Seilir ffigurau 2013/14 yn adroddiad eleni ar allweddi diwydiant ac nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau Adroddiad Blynyddol y llynedd a oedd wedi'u seilio ar godau nominal. Bydd gwella'r gallu i adrodd yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i fireinio'r ffordd y mae'n defnyddio data ariannol.

3.5. Mae Ffigur 2 yn dangos y tueddiadau sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannu rheoli grantiau cyffredinol Llywodraeth Cymru gan gynnwys grantiau wedi'u neilltuo a grantiau heb eu neilltuo.

Ffigur 2: Cyfanswm Arian Grant Llywodraeth Cymru fesul Blwyddyn Ariannol

	2011/12	2012/13	2013/14	% y Newid 2012/13 i 2013/14
Lefel y grant a ddarparwyd (£bn)	13.1	13.2	13.6	3.0% 
Amcangyfrif o nifer y rhaglenni y flwyddyn	456	435	400	8.0% 
Amcangyfrif o nifer y grantiau a gynigiwyd bob blwyddyn	24,400	20,200	18,400	8.9% 

Ffynhonnell: System Gyllid ac e-Grantiau Llywodraeth Cymru

3.6. Rhoddodd Llywodraeth Cymru oddeutu 400 o raglenni grantiau gwahanol ar waith a oedd yn gyfran fawr iawn o'n cyllideb flynyddol gyffredinol ar gyfer 2013/14, a darparwyd £13.6 biliwn ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. Oherwydd mai natur ddeinamig sydd i grantiau, mae nifer y rhaglenni sydd ar waith ar unrhyw un adeg yn gallu amrywio'n sylweddol. Mae'r rhaglenni sydd ar waith ar hyn o bryd yn cynnig oddeutu 18,400 o grantiau unigol bob blwyddyn. Mae nifer y rhaglenni (8.0%) a nifer y grantiau a gynigiwyd (8.9%) wedi lleihau yn barhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae sawl peth yn gyfrifol am y duedd hon, gan roi llai o grantiau a rhagor o gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a'r gymuned ehangach. Mae'r duedd hon yn bwysig yng nghyd-destun amcan Llywodraeth Cymru i leihau costau gweinyddu grantiau.

3.7 O'r cyfanswm cyffredinol hwn, mae dros £11.2bn yn arian heb ei neilltuo a roddir i Awdurdodau Lleol, y GIG a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio i wireddu blaenoriaethau a bennir yn lleol, yn ddarostyngedig i'w dyletswyddau statudol. Mae arian heb ei neilltuo i'r sefydliadau hyn yn destun nifer o adroddiadau a phrosesau craffu eraill, ac nid ar y math hwn o ariannu y mae'r adran hon o'r Adroddiad yn canolbwyntio. Mae'r adran olaf o'r Adroddiad yn canolbwyntio ar arian wedi'i neilltuo, h.y. y math o gynlluniau grantiau sydd wedi wynebu'r anawsterau rheoli mwyaf yn y blynyddoedd diwethaf.

3.8. Bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli arian yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd drwy'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop; mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y gwariant wedi'i neilltuo. Hefyd, yn y gwariant wedi'i neilltuo, mae'r arian Ewropeaidd a roddir drwy WEFO ac a drosglwyddir i drydydd partïon gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grantiau a roddir yn uniongyrchol gan WEFO yn cael eu trafod ym mharagraffau 3.22 i 3.28 o'r adroddiad hwn.

3.9. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian grant i'r tri phrif sector, sef y sector cyhoeddus (llywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Adrannau'r Llywodraeth, cyrff a noddir a sefydliadau addysg), y sector preifat a'r Trydydd Sector (mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, cyrff cymunedol ac ati).

Y Sector Cyhoeddus

3.10. Rhoddir arian grant wedi'i neilltuo i Awdurdodau Lleol, i'r GIG, i gyrff cysylltiedig â'r Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac addysg.

Awdurdodau Lleol

3.11. Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn benderfynol o leihau nifer y cynlluniau grantiau wedi'u neilltuo a roddir i Awdurdodau Lleol. Lle bynnag y bo modd, bydd yr arian ar gyfer gweithgareddau penodol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw sydd heb ei neilltuo ac sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i benderfynu ar flaenoriaethau lleol a defnyddio'r arian fel sy'n briodol. Mae hyn yn dileu'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â grantiau penodol i'r Awdurdod Lleol ac i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd gofyn cael grantiau penodol o hyd lle y bydd angen i Awdurdodau Lleol weithredu a chyflawni blaenoriaethau penodol Gweinidogion. Yn 2013/14, rhoddodd Llywodraeth Cymru £546m ar ffurf grantiau wedi'u neilltuo i

Awdurdodau Lleol. Rhai enghreifftiau o grantiau wedi'u neilltuo yw'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r Grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr.

Y GIG

3.12 Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am roi arweiniad strategol ar waith, ac am reoli GIG Cymru ac ysgwyddo stiwardiaeth gyffredinol dros arian y GIG. Bydd y rhan fwyaf o arian y GIG yn cael ei ddarparu ar ffurf cymorth grant heb ei neilltuo sy'n galluogi'r GIG i wireddu ei ddyletswyddau statudol a chyflawni blaenoriaethau lleol. Mae swm cymharol fach o arian grant wedi'i neilltuo (£22m yn 2013/14) hefyd yn cael ei roi i'r GIG i'w alluogi i gyflawni gweithgareddau penodol i wireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd eisoes yn yr adran hon at wella adroddiadau, a rhan o'r gwaith hwnnw yw parhau i ddynodi arian wedi'i neilltuo ar gyfer sefydliadau cysylltiedig ag iechyd, ac felly gellid disgwyl i'r arian a ddyrennir i'r categori hwn gynyddu yn y blynyddoedd a ddaw. Enghreifftiau o grantiau wedi'u neilltuo i'r GIG yw grantiau i gefnogi gweithgareddau Ymchwil a Datblygu, ac i helpu i hyfforddi Ymwelwyr Iechyd sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Dechrau'n Deg.

Y Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus

3.13 Mae Llywodraeth Cymru yn noddï nifer o sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth Ganolog neu sy'n Gorfforaethau Cyhoeddus, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yr Adran Iechyd, Gwasanaeth Carchardai EM, Swyddfa Archwilio Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yn 2013/14, darparwyd £340m o arian wedi'i neilltuo i'r sefydliadau hyn i gefnogi gweithgareddau yng Nghymru gan sicrhau gwerth am arian wrth fwrw ymlaen â phrif bolisiau.

Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

3.14. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i nifer o wahanol gyrff a elwir yn Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yn 2013/14, rhoddodd Llywodraeth Cymru £19m ar ffurf grantiau wedi'u neilltuo i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys y Gronfa Cyfnerthedd Ecosystemau, Amddiffyn rhag Llifogydd a'r Grant Tipio Anghyfreithlon.

Arian ar gyfer Addysg

3.15 Nid dim ond ar ffurf grantiau uniongyrchol i ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch y telir arian grant wedi'i neilltuo ond hefyd ar ffurf grantiau anuniongyrchol drwy'r trydydd sector, cyrff preifat ac Awdurdodau Lleol. Trafodir y rhain o dan yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Er nad yw union wariant Awdurdodau Lleol ar addysg yn cael ei fesur ar wahân, mae wedi'i gynnwys o dan gategori Awdurdodau Lleol (paragraff 3.11). Mae grantiau wedi'u neilltuo a roddir yn uniongyrchol i ysgolion, colegau a phrifysgolion i wireddu amcanion polisi penodol yn cael eu mesur ar wahân, a'r cyfanswm yn 2013/14 oedd £489m.

Y Sector Preifat

3.16. Yn Adroddiad Blynyddol 2013, seiliwyd categori'r sector preifat ar un cod nominal a hwnnw wedi'i rannu'n ddwy ran â llaw; arian ar gyfer busnesau ac arian ar gyfer addysg. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd system ariannol Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng busnesau ac addysg wrth ddadansoddi'r gwariant drwy ddefnyddio codau nominal. Cyfrifwyd y ffigurau unigol yr adroddir yn eu cylch ar gyfer busnesau ac addysg drwy ddefnyddio data a oedd yn deillio o nifer o systemau ac felly nid oes modd bod yn gwbl sicr am eu cywirdeb.

3.17. Mae ail-ffurfweddu'r strwythur cyfrifyddu a symud at adroddiadau sydd wedi'u seilio ar allwedd diwydiant wedi galluogi Llywodraeth Cymru i weld faint o arian a roddir i fusnesau'r sector preifat. Felly, at ddiben yr adroddiad hwn ac Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol, mae'r dadansoddiad hwn o'r sector preifat yn canolbwyntio'n unig ar yr arian a roddir i fusnesau; trafodwyd yr arian a roddir i addysg ym mharagraff 3.15.

3.18. Amcan rhoi arian grant i fusnesau yw cryfhau'r economi ac mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys busnesau newydd, adfywio, cynlluniau arbed ynni, hyfforddiant a thwristiaeth. Rhoddwyd grantiau gwerth £827m i'r sector hwn yn 2013/14, sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu busnesau i gynyddu eu twf economaidd yng Nghymru.

Astudiaeth Achos: Grant SMARTCymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod ymchwil a datblygu'n ddull o wella twf economaidd yng Nghymru. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu grant SMARTCymru i roi arian i gwmnïau yng Nghymru i gynnal prosiectau ymchwil a datblygu. Pe na bai'r grant hwn ar gael, byddai cwmnïau yng Nghymru yn gwneud cryn dipyn yn llai o waith ymchwil, a byddai hynny'n amharu ar lwyddiant a thwf y sefydliadau hyn.

Er 2012, mae SMARTCymru wedi rhoi arian grant i Gwmni Sure Chill i ymchwilio a datblygu technoleg oeri brechlynnau. Rhoddwyd cyfanswm arian grant gwerth dros £290,000 a bu hyn yn help i'r cwmni sicrhau arian gan Sefydliad Bill a Melinda Gates.

Mae technoleg Sure Chill yn cynnig gallu heb ei ail i oeri brechlynnau, heb y peryglon sydd ynghlwm wrth eu rhewi, yn enwedig lle bydd y cyflenwad pŵer yn wael, yn mynd a dod neu lle nad oes cyflenwad ar gael o gwbl. Ers cwblhau'r datblygiad newydd, mae Sure Chill wedi adeiladau rhyw 1,500 o oergelloedd yn ei weithdy yng Nghymru, gan eu hanfon i dros 40 o wledydd i gleientiaid megis Unicef. Mae'r cwmni hefyd wedi llofnodi cytundeb trwyddedu â gweithgynhyrchydd mawr yn India i wneud oergelloedd meddygol ar safle newydd sy'n cael ei adeiladu ger Mumbai.

Y Trydydd Sector

3.19. Yn ôl y diffiniad, cyrff annibynnol, anllywodraethol yw'r Trydydd Sector sy'n cael eu sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion, a'r rheini'n cael eu cymell gan yr awydd i hybu eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol. Maent wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gwargedau i hyrwyddo'u hamcanion. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod gan y Trydydd Sector ran bwysig iawn i'w chwarae'n helpu i gyflawni ei hamcanion o dan ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian grant wedi'i neilltuo i'r Trydydd Sector.

